# Awdurdod Parc Cenedlaethol
## 25 Mawrth 2026

**Yn bresennol (yn bersonol)**
Dr M Havard (Cadeirydd)
Y Cynghorydd D Clements, y Cynghorydd C George, Mr J Hogg MBE, y Cynghorydd B Price a'r Cynghorydd M Williams.

**Yn bresennol (ar-lein)**
Y Cynghorydd M Bowen, Miss F Day, Ms H Gwenllian, Y Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Y Cynghorydd SL Hancock MBE, Y Cynghorydd A Tinley, Y Cynghorydd V Thomas a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**Hefyd yn bresennol:**
James Eul (Cyfieithydd ar Pryd), Catrin Evans (Pennaeth Cyllid a Chodi Arian), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Michael Kent (Swyddog Monitro), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Gary Meopham (Swyddog Ystadau), Sara Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu), Libby Taylor (Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant) a James Parkin (Cyfarwyddwr Adfer Natur a Thwristiaeth).

[Ystafell Preseli, Swyddfa Parc Llanion ac Ar-lein, 10.00am – 12.40pm]

### 1. Personol
Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd M Williams fel yr Aelod diweddaraf i ymuno â'r Awdurdod, a benodwyd gan Gyngor Sir Penfro.

### 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd T Evans, Mrs S Hoss, a'r Cynghorydd S Skyrme-Blackhall.

### 3. Datgan Buddiannau
Datganodd y Cynghorydd B Price fuddiant yn adroddiad 10/26, Cymeradwyo grantiau yn unol ag Adran 76 o'r Safonau Ariannol (y Rhwydwaith Bysiau Arfordirol) ac yn adroddiad 11/26, Cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer gweithrediadau arfordira masnachol ar dir sy'n eiddo i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol. Cadarnhaodd y Cynghorydd B Price bod ei buddiant yn adroddiad 11/26 yn rhagfarnus ac y byddai felly yn gadael yr ystafell gyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

### 4. Cofnodion
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2026 i'w cadarnhau.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock, **penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2026.

**5. Log Gweithredu a Materion yn Codi**
Nodwyd y log gweithredu.

**Nodwyd.**

**6. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau/ cyfarfodydd canlynol yn ystod y mis diwethaf:

- Taith Gerdded ar Faes Tanio Castellmartin lle cafodd gyfle i rwydweithio â gwirfoddolwyr yr Awdurdod a Pharcmon yr ardal.
- Parêd y Ddraig yn Oriel y Parc (OyP), a fynychwyd hefyd gan y Prif Weinidog a'r Aelod Seneddol lleol. Roedd y Cadeirydd wedi canmol tîm OyP am eu gwaith caled yn trefnu a chyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.
- Y Cinio Dydd Gŵyl Dewi blynyddol a gynhelir gan Faer a Chynghorwyr Dinas Tyddewi.
- Cyfarfod Fforwm y Bartneriaeth.
- Cyfarfod Fforwm Partneriaeth Cymru Gyfan.
- Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru lle cymeradwywyd y Strategaeth Fuddsoddi Ranbarthol derfynol a'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith y byddai Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) yn dathlu ei ben-blwydd yn 75 oed ar y 1af o Fawrth 2027. Gofynnwyd am awgrymiadau'r Aelodau am ddigwyddiadau i ddathlu'r achlysur.

Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd ei bod wedi cynrychioli'r Awdurdod ar Fforwm Gwledig y WLGA ac amlinellodd yr eitemau a drafodwyd yn ystod y cyfarfod.

**Nodwyd.**

**7. Adroddiadau cyfarfodydd Pwyllgorau eraill yr Awdurdod**
Cyflwynwyd cofnodion nifer o gyfarfodydd Pwyllgor yr Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried:

- Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 28/01/2026.
- Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 12/11/2025.

- Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 10/12/2025.

**Penderfynwyd** derbyn cofnodion y pwyllgorau uchod.

**Nodwyd.**

**8. Llefydd Gwag ar y Pwyllgorau**

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bod llefydd gwag wedi codi ar sawl Pwyllgor o ganlyniad i ymadawiad y Cynghorydd S Alderman. Cytunwyd y dylid llenwi'r llefydd gwag hynny fel a ganlyn:

- Pwyllgor Adolygu Gweithredol – Y Cynghorydd M Williams
- Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu – Y Cynghorydd M Williams
- Gweithgor Cymorth i'r Aelodau – Y Cynghorydd M Bowen
- Is-bwyllgor Craffu Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru – Mr J Hogg
- Pwyllgor Ymgynghorol Porthladd Aberdaugleddau – Y Cynghorydd C George
- Pwyllgor Cwynion – Miss F Day

**9. Cyllidebau 2026/27**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i Gyllideb 2026/27, y Dangosyddion Darbodus, y Strategaeth Buddsoddi a'r Polisïau Rheoli'r Trysorlys. Aeth y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian drwy'r adroddiad a thynnu sylw at y ffaith bod y diffyg cyllidebol yn £544k am 2026/27, a bod y Dangosyddion Darbodus yn dangos bod cynlluniau cyfalaf yr Awdurdod am 2026/27 yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy. Ychwanegwyd bod y Swyddog Adran 151 wedi cynghori y dylid cynnal y cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar ddim llai na £1,400k ar ôl ystyried yr ystod lawn o risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod.

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y risgiau sy'n dod i'r amlwg a'r risgiau allweddol sy'n effeithio ar gylch cynllunio blynyddol 2026, a gofynnodd Aelod a oedd ymarferiad ar ragamcanu senario wedi'i gynnal i ragweld sut y gallai unrhyw gynnydd sylweddol mewn chwyddiant effeithio ar yr Awdurdod. Cadarnhawyd bod dadansoddiad sensitifrwydd a'r rhagolygon am 2027/28 i 2029/30 wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ac yn rhoi dadansoddiad o'r modd y gallai cyllideb yr Awdurdod gael ei heffeithio pe bai unrhyw gynnydd sylweddol mewn chwyddiant heb gynnydd cyfatebol yn y Grant i'r Parc Cenedlaethol. Eglurwyd, pe bai'r sefyllfa hon yn codi, y byddai diffygion ariannol yr Awdurdod, sy'n cael eu rhagamcanu, yn gwaethygu'n sylweddol, y byddai defnyddio'r cronfeydd wrth gefn yn cael ei gyflymu, a'r daliadau arian parod sydd ar gael yn mynd yn llai, fyddai'n cyfyngu ar gydnerthedd ariannol yr Awdurdod.

O ran y cynnydd parhaus ym mhrisiau tanwydd, gofynnodd Aelod a fyddai angen newid patrymau gwaith i gymryd hyn i ystyriaeth. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r mater hwn yn cael ei drafod mewn cyfarfod o'r Tîm Rheoli yn y dyfodol. Ychwanegodd, pe bai sefyllfa'n codi lle mae tanwydd yn gyfyngedig, y byddai angen cynnal ymarferiad blaenoriaethu.

Cafwyd trafodaeth ynghylch cynhyrchu incwm, a gofynnodd Aelod a fyddai angen codi prisiau i dalu am y costau uwch mewn rhai meysydd megis prisiau parcio ceir a phrisiau mynediad i ganolfannau. Eglurodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod, fel Corff Cyhoeddus, yn rhwymedig i reoli a hwyluso'r defnydd o'r Parc Cenedlaethol, ac felly roedd angen iddo sicrhau bod prisiau yn parhau yn fforddiadwy i'r rhai sy'n dymuno cael mynediad i gyfleusterau'r Parc. Dywedodd y Prif Weithredwr bod y posibilrwydd o gyflwyno Ardoll Ymwelwyr yn 2028/29 yn gyfle i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol gan fod yr Awdurdod yn cyfrannu'n ariannol at sawl gwasanaeth oedd o fewn cylch gwaith Cyngor Sir Penfro ac felly dylai fod yn gymwys i hawlio cyfran o'r ardoll. Eglurodd, pe na bai'r Awdurdod yn cael unrhyw ran o'r ardoll bosibl, y byddai angen ystyried lleihau/ rhoi'r gorau i gyfraniadau ariannol yr Awdurdod, ond byddai hyn yn y pen draw yn fater i'r Aelodau benderfynu.

Nodwyd yr incwm a ragamcanwyd am y flwyddyn, ac roedd yr Aelodau yn cydnabod bod hyn yn amlygu gwaith caled y staff. Er gwaethaf hyn, cytunodd yr Aelodau y byddai angen canolbwyntio ymhellach ar gynhyrchu incwm i gynyddu lefel yr incwm a gynhyrchir gan yr Awdurdod.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Mr J Hogg, **penderfynwyd**:

i. cymeradwyo'r gyllideb am 2026-27,
ii. nodi'r rhagolygon ariannol am 2027-28 i 2029-30,
iii. cymeradwyo'r dangosyddion darbodus a 2026–27 i 2028–29,
iv. cymeradwyo'r polisi Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn a'r Datganiadau Strategaeth Buddsoddi a Rheoli'r Trysorlys am 2026-27.

**10. Y Rhwydwaith Bysiau Arfordirol**

Roedd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu wedi cyflwyno adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i wneud taliad o tua £75,000 i Gyngor Sir Penfro (CSP) fel cyfraniad tuag at y rhwydwaith bysiau arfordirol a'r swydd Rheolwr Strategaeth yr Uned Trafnidiaeth Integredig am y flwyddyn ariannol 2026/27. Dywedwyd bod y cyfraniad ariannol o £75,000 yn swm sydd o fewn rheolaeth yr Awdurdod, ac y byddai parhau i gyfrannu y flwyddyn ariannol nesaf yn hanfodol yn ystod cyfnod o ddiwygio trafnidiaeth fyddai o gymorth i sicrhau dyfodol y ddarpariaeth bysiau arfordirol pan fyddai gwasanaethau yn cael eu masnachfreinio ar draws y rhanbarth. Eglurodd y Cyfarwyddwr bod y cyllid yn cyd-fynd â

dyletswyddau statudol y Parc Cenedlaethol a bod y gwasanaethau bysiau arfordirol yn gymorth i’r rhai sydd heb gyfleusterau cerbyd preifat, yn hyrwyddo ecwiti cymdeithasol, yn lleihau allyriadau carbon, yn gwella diogelu bioamrywiaeth ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd, lles a'r iaith Gymraeg.

O ran cynhyrchu incwm, awgrymodd Aelod y dylid gosod peiriannau rhoi rhodd drwy’r drefn 'tapio-i-dalu' ar y bysiau arfordirol i gasglu rhoddion i Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro, a nodwyd hyn gan y Swyddog.

Nodwyd nifer y teithwyr sy’n defnyddio’r bysiau hyn, a gofynnodd Aelod a oedd asesiad o effaith economaidd y gwasanaeth wedi'i gynnal. Cytunodd y Cyfarwyddwr i gysylltu â Chyngor Sir Penfro i weld a oedd y cyfryw waith ymchwil wedi'i gynnal.

Nodwyd effeithiau’r gwasanaeth ar yr Iaith Gymraeg, a gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth ynghylch y modd y byddai’r gwasanaeth bysiau arfordirol yn hyrwyddo’r iaith Gymraeg. Cytunodd y Cyfarwyddwr i gysylltu â Chyngor Sir Penfro i gael y wybodaeth hon i’w dosbarthu i’r Aelodau.

Manteisiodd Aelod ar y cyfle i dynnu sylw at bwysigrwydd y gwasanaeth Roced Poppit oedd gynt yn gweithredu yng Ngogledd y sir, a gofynnodd a ellid adfer y gwasanaeth hwn ar ôl iddo gael ei ddiddymu. Cytunodd y Cyfarwyddwr i dynnu sylw at bwysigrwydd y gwasanaeth hwn i'r Rhwydwaith Lonydd Glas tra bod ymchwil ynghylch teithio llesol yn cael ei ystyried.

Ar gynnig y Cynghorydd S Hancock, a eiliwyd gan Ms H Gwenllian, **penderfynwyd** cymeradwyo talu tua £75,000 i Gyngor Sir Penfro fel cyfraniad tuag at y rhwydwaith bysiau arfordirol a’r swydd Rheolwr Strategaeth Uned Trafnidiaeth Integredig am y flwyddyn ariannol 2026/2027.

[Gohiriwyd y cyfarfod o 11:15am – 11:28am]

[Ymunodd y Cynghorydd A Tinley â'r cyfarfod yr adeg hon. Datganodd y Cynghorydd B Price fuddiant rhagfarnllyd yn yr eitem ganlynol a gadawodd yr ystafell tra bod yr eitem yn cael ei thrafod.]

**11. Trwyddedu Arfordira Masnachol**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu adroddiad oedd yn amlinellu'r cynnig i gyflwyno cynllun trwyddedu mewn perthynas ag arfordira masnachol ar dir sy'n eiddo i neu wedi'i brydlesu gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC). Dywedwyd bod yr APC, yn hanesyddol, wedi dibynnu ar gyfuniad o godau ymddygiad gwirfoddol i

lywio'r gwaith o redeg ystod o weithgareddau hamdden yn Sir Benfro, gan gynnwys ar dir lle'r oedd buddiant gan yr Awdurdod. Eglurodd y Cyfarwyddwr bod y trefniant hwn wedi gweithio'n iawn ers blynyddoedd lawer, fodd bynnag, roedd newidiadau yn nifer y darparwyr oedd yn cynnig y gweithgareddau hyn, a'r cwynion a godwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi amlygu'r angen am symud i drefniant mwy ffurfiol. Roedd yr adroddiad yn nodi mai'r bwriad oedd symud i system drwyddedu o'r 1af o Fai yn dilyn cwblhau asesiadau amgylcheddol o'r llwybrau arfordira presennol. Ychwanegwyd, pe bai unrhyw lwybr yn methu â bodloni'r asesiadau amgylcheddol, na fyddent yn cael eu cynnwys yn y cyfryw gytundebau trwyddedu.

Holodd Aelod a oedd yr Awdurdod wedi cysylltu ag Ystâd y Goron (fel Landlord yr Awdurdod ar gyfer y blaendraeth) ynghylch y bwriad i drwyddedu. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr bod Ystâd y Goron wedi bod yn gefnogol i'r bwriad ac wedi nodi y byddent yn barod i gefnogi'r Awdurdod pe bai gweithredwr yn parhau i ddefnyddio'r blaendraeth heb gael trwydded.

Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth ynghylch dulliau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol o reoli arfordira ar eu tir. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr bod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi cytuno i weithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod o ran cael proses drwyddedu gyfochrog. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhawyd y byddai angen i weithredwyr gael trwydded gan yr APC a gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ond byddai'r broses yn cael ei symleiddio gydag un cais i gael y ddwy drwydded.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr, er nad oedd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol wedi digwydd, bod trafodaethau gyda'r gweithredwyr ar y cynigion hyn wedi bod yn parhau ac y byddai trafodaethau pellach yn cael eu trefnu pe bai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo. Ychwanegodd y Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant bod Swyddogion yr APC wedi cyfarfod â'r gweithredwyr arfordira fis Tachwedd 2025 i rannu drafft cyntaf y cynllun arfaethedig ac i geisio adborth. Dywedwyd mai nod yr APC yw gweithio gyda'r gweithredwyr ac i gasglu adborth drwy gydol y broses.

Nododd yr Aelodau nad oedd chwaraeon dŵr eraill wedi'u hystyried fel rhan o'r cynllun trwyddedu arfaethedig. Eglurodd y Cyfarwyddwr bod y Swyddogion wedi bod yn canolbwyntio ar reoli gweithgareddau oedd o fewn eu rheolaeth ac a allai gael effaith negyddol ar yr amgylchedd. Eglurodd bod Swyddogion yn arbennig o bryderus ynghylch arfordira o ystyried natur y gweithgaredd, a gan bod gofyn cael mynediad ar draws tir yr Awdurdod, y gallai'r Awdurdod gymryd camau gweithredu. Roedd yn cydnabod y gallai mathau eraill o chwaraeon dŵr gael effaith negyddol ar

yr amgylchedd, fodd bynnag, byddai angen ymchwil ychwanegol i glustnodi lefel yr effaith a pha gamau gweithredu, os o gwbl, y gellid eu cymryd.

Cafwyd trafodaeth wedyn ynghylch cost y trwyddedau, ac roedd yr Aelodau o'r farn bod y ffioedd yn rhy isel. Dywedwyd bod y ffi o £100 am drwydded yr APCAP wedi'i bennu am y flwyddyn gyntaf, ac er na fyddai'r swm hwn yn talu costau'r gwaith ar asesu'r effaith ar yr amgylchedd, y byddai'n cyfrannu at y costau hynny tra byddai'r Awdurdod yn trosglwyddo i'r trefniadau newydd hyn. Ychwanegwyd bod yr Awdurdod yn bwriadu gweithio tuag at sefyllfa o adennill y costau yn llawn dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Eglurodd y Swyddog bod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol hefyd yn bwriadu codi £100 am eu trwyddedau.

Roedd yr Aelodau wedi trafod manteision y cynllun trwyddedu arfaethedig ac yn cydnabod bod y cynllun yn gyfle i'r gweithredwyr fydd wedi'u trwyddedu gael eu gweld fel esiamplau ac yn rhoi hygrededd ychwanegol iddynt o fewn y diwydiant. Cadarnhaodd y Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant y byddai'r Awdurdod yn ystyried rhoi sticeri i weithredwyr trwyddedig i'w harddangos ar eu cerbydau.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhawyd bod y trwyddedu yn cynnig fframwaith cyfreithiol cryfach o ran cefnogi'r Awdurdod i warchod y Parc Cenedlaethol ac yn ffurfioli'r asesiadau amgylcheddol oedd yn cael eu cynnal gan Brif Ecolegydd yr Awdurdod. Cyflwynodd y Prif Ecolegydd ragor o wybodaeth ynghylch elfennau'r asesiadau amgylcheddol.

Roedd yr Aelodau yn cydnabod bod anghysonderau ar hyn o bryd o ran disgwyliadau ac arferion rhwng darparwyr arfordira, fodd bynnag, byddai cynllun trwyddedu yn sicrhau cysondeb a thegwch.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd C George, **penderfynwyd** cytuno i ddirprwyo'r gwaith o gyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer y gweithrediadau arfordira masnachol ar dir sy'n eiddo i neu wedi'i brydlesu gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, cyn belled â bod yr asesiadau amgylcheddol cysylltiedig ar lwybrau penodol wedi'u cwblhau yn foddhaol.

[Ail-ymunodd y Cynghorydd B Price â'r cyfarfod yr adeg hon.]

**12. Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad oedd yn amlinellu penderfyniadau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar y Cyflogau Sylfaenol ac Uwch sy'n daladwy i Aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol am y flwyddyn ariannol 2026/27.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd C Williams, **penderfynwyd**:

i. nodi Adroddiad Blynyddol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026/27.
ii. bod swyddi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn derbyn tâl Cyflog Uwch.

**13. Eithrio'r Cyhoedd**

Nodwyd, wrth drafod yr adroddiad canlynol, y gallai gwybodaeth oedd yn sensitif yn fasnachol gael ei rhannu, ac felly gofynnwyd am eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod.

Ar gynnig y Cynghorydd M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd D Clements, **penderfynwyd** y dylid eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 16 o ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu.

**14. Gwarchodfa Natur Rosemoor**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Adfer Natur a Thwristiaeth adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y cynnig i gaffael Gwarchodfa Natur Rosemoor yn dilyn cyfnod o ddiwydrwydd dyladwy cyfreithiol ac ariannol. Rhoddodd y Cyfarwyddwr grynodeb o'r cynnig gan dynnu sylw at brif fanteision a risgiau'r caffael arfaethedig.

Yn dilyn trafodaeth ac ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock, **penderfynwyd** peidio â chaffael Gwarchodfa Natur Rosemoor oherwydd y risgiau ariannol a chyfreithiol oedd yn gysylltiedig ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn rheoli'r safle.